

Papur Pawb

Pris: 50c

Mehefin 2010

Rhif 360

**Sam yn
ennill ar
yr Unawd
allan o
Sioe Gerdd**



tud 3
Pobl a Phethe

tud 5/9
Ysgolion

tud 11
Ble yn y byd

tud 12
Chwaraeon

Eisteddfod Lwyddiannus

Buoch chi yn Steddfod yr Urdd yn Llannerchaeron? Os do fe, fe gawsoch chi wledd. Os naddo mae'n sicr i chi fachu talpiau o'r cystadlu ar S4C a gweld bod y safon eleni yn arbennig. Tywynnodd yr haul bron drwy'r wythnos ac roedd y safle'n ardderchog. Gosodwyd targed ariannol o £300,000 ond yn y pen draw llwyddwyd i godi ugain y cant yn uwch na'r targed gyda'r swm terfynol yn £360,000. Gwnaeth ein pwyllgor apêl leol o dan gadeiryddiaeth Cyng Ellen ap Gwynn gyfraniad anrhydeddus tuag at y swm yna. Tyrfa, tywydd, arian a godwyd a safle - dyna rai o'r ffyrdd o fesur llwyddiant yr Eisteddfod ond yn ei hanfod y ffon fesur bwysicaf yw'r cystadlu ac yma eto mae'n braf cael dweud bod ieuencid yr ardal wedi bod yn hynod lwyddiannus. Canlyniadau llawn gweler tudalen 5.

**Medi yn
2ail ar y
Ddawns
Werin**



Boddi yn ymyl y lan - tud 4

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Geraint Evans Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion. post@garnwen.org.uk Cysyllter â golygyddion y mis.	(01970) 832473
Tynnu lluniau:		
Bont-goch:	GOHEBYDDION LLEOL Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
Parsel Henllys:	Dilys Morgan, Alltgoch	832498
Eglwysfach:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	(01654) 781312
Taliesin:	Mai Leeding, Glannant, Taliesin	832672
Tal-y-bont:	Aileen Williams, Maesmeillion	832438
Tre'r Ddôl:	Kathleen Richards, Y Bryn	832201
	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl	832429
Maes y Deri:	Janet Evans, Cefngweiriog	(01654) 781260
	Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	832483
Cadeirydd:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Is-gadeirydd:	Geraint Pugh, Dôl Pistyll	832433
Ysgrifennydd:	Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont	832384
Trysorydd:	Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont	832560
Aelodaeth:	Aileen Williams, Maesmeillion	832438
Hysbysebion:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	(01654) 781312
Plygu:	Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds	
Dosbarthwyr:	Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Bleddyn Huws (Tanygrifiadau)	

Cyhoeddi gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Llythyron

Annwyl Olygyddion

Ar ran Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr, carwn ddiolch am ymateb anhygoel trigolion, sefydliadau a busnesau Tal-y-bont i apêl y Cyngor i chwifio baneri o groeso i ymwelwyr oedd yn teithio drwy'r pentref ar eu ffordd i Eisteddfod yr Urdd yn Llanerchaeron. Braff oedd gweld sioe mor wefreiddiol o faneri a byntin lliwgar ar hyd ochr y ffordd fawr o un pen y pentref i'r llall. Mor effeithiol oedd y baneri o groeso yn Nhal-y-bont fel eu bod wedi'u crybwyll ar flog BBC Cymru 'Cylchgrawn Cymru'.

Unwaith eto, diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Yn gywir

*Y Cyngorydd Gerwyn Jones
(Cadeirydd)*

Cartref Tregerddan Barbeciw yn y Cartref

Nos Wener 18 Mehefin 2010
am 6.30 y.h.
Croeso cynnes i bawb

Afiaith Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Profesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Isy-coed, Tre Taliesin, MACHYNLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Annwyl Olygyddion,

Ar ddiwedd wythnos hynod lwyddianus a welodd Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010 yn torri sawl record o ran tywydd a gweithgaredd hoffwn longyfarch a diolch. Llongyfarchiadau gwresog i holl blant a phobl ifanc y fro a fu'n cymeryd rhan mewn perfformiadau, yn cystadlu ac yn ennill clod iddyn nhw eu hunain ac i'w hysgolion a'u hyfforddwyr – ardderchog yn wir!

Hoffwn ddiolch o galon hefyd i bawb a fu'n gefn i Bwyllgor Apêl Ward Ceulanamaesmawr ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd. Llwyddon ni i fwrw'n targed a mwy trwy gasglu £8,300!! Diolch arbennig i Jen Evans Neuadd Fawr a Lynn Ebenezer am eu gwaith fel Ysgrifennydd a Thrysorydd gweithgar iawn i'r Pwyllgor. Gwnaeth y ddwy fy ngwaith i fel Cadeirydd yn rhwydd iawn.

Diolch hefyd i bawb am eu hymdrechion i groesawu'r ymwelwyr trwy addurno'r pentre. Mae wedi bod yn bleser i weld y baneri'n chwifio o un pen i'r pentre i'r llall. Beth am eu cadw'n chwifio i edrych ymlaen at Sioe'r Cardis ym mis Gorffennaf a Sioe Tal-y-bont ym mis Awst?

Gyda phob dymuniad da
*Ellen ap Gwynn
Cadeirydd y Pwyllgor Apêl*

S. F. BYRNE Adeiladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309

Gwneir pob math o waith

Dyddiadur

MEHEFIN

- Bethel: 10 Mabon ap Gwynfor
Nasareth: 10 Steffan Jones
Rehoboth: 10 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant: 2.30
Cymundeb
- Cyfarfod Blynnyddol Papur
Pawb: 8 Neuadd Goffa
Tal-y-bont
- Bethel: 10 Undebol yn Soar
Llanbadarn
Nasareth: 5 Judith Morris
Rehoboth: 10 Glyn Morgan
Eglwys Dewi Sant: 11 Cymun
Bendigaid
Eglwys St Pedr Bontgoch Elerch:
2.30 Cymun Bendigaid
- Merched y Wawr: Cyfarfod
Blynnyddol – Wil Griffiths –
Llestri Capel
- Sefydliad y Merched, Tal-y-bont:
Taith Haf, Llangeler –
Amgueddfa Plentynod
- Clwb Nos Wener: Geraint
Løvgreen
Eglwys St Pedr, Bontgoch
(Elerch): 7 Pumed noson Gwin,
Caws a Chân gyda Chôr
Ger-y-Lli, Linda Griffiths, ac
Ensemble Taliesin (Tocynnau £6
l £1.50 i blant)
- Diwrnod Hwyl
- Sioe'r Cardis: 7.30 Cyngerdd a
Barbeciw ar Fferm Cwmwythig,
Capel Bangor
- Bethel: 2 Gweinidog
Nasareth: 5 Bugail
Rehoboth: 10 M.J. Morris
Eglwys Dewi Sant: 9.30 Boreol
Weddi

GORFFENNAF

- Bethel: 5 Gweinidog
Nasareth: 11.15 Bugail
Rehoboth: 5 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant: 2.30 Gosber
Eglwys St Pedr Bontgoch,
Elerch: 2.30 Cymun Bendigaid
- Bethel: 10 Miss Beti Griffiths
Nasareth:
Rehoboth: 11 Oedfa'r Ofalaeth
Eglwys Dewi Sant: 2.30
Cymundeb
- Sefydliad y Merched, Tal-y-bont:
Sgwrs am Tenovus gyda Natalie
Kell
- Bethel: 10 Parch. J. E. Wynne
Davies
Nasareth: 10 Huw Roderick
Rehoboth: 10 Gordon
Macdonald
Eglwys Dewi Sant: 11 Cymun
Bendigaid
Eglwys St Pedr Bontgoch,
Elerch: 2.30 Hwyl Weddi
- Sioe'r Cardis, Llanellwedd
- Bethel: 5 Gweinidog
Nasareth: 10 M.J. Morris
Rehoboth: 5 Bugail
Eglwys Dewi Sant: 9.30 Boreol
Weddi
- CFFI, Cyfarfod Blynnyddol y
Clwb

AWST

- Bethel: 2 Parch Kevin Davies
Nasareth: Dim gwasanaeth
Rehoboth: 10 Richard H. Lewis
Eglwys Dewi Sant: 2.30 Gosber
- Bethel: 10 Parch. Morris P.
Morris
Nasareth: Dim gwasanaeth
Rehoboth: 10 Beti Wyn
Holmes
Eglwys Dewi Sant: 2.30 Cymun
Bendigaid
- Bethel: 5 Rhodri Glyn
Nasareth: Dim gwasanaeth
Rehoboth: 10 Ifan Mason
Davies
Eglwys Dewi Sant: 11 Cymun
Bendigaid
- Bethel: 10 Raymond Davies
Nasareth: Dim gwasanaeth
Rehoboth: 10 Steffan Jones
Eglwys Dewi Sant: 9.30 Boreol
Weddi
- Sioe Tal-y-bont a Gogledd
Ceredigion
- Bethel: 2 Gweinidog
Nasareth: Dim gwasanaeth
Rehoboth: 10 Beti Griffiths
Eglwys Dewi Sant: Undebol

MEDI

- Sefydliad y Merched,
Tal-y-bont: 2 Prynawn
aelodau, Neuadd Goffa
Tal-y-bont
- Bethel: 2 Parch Adrian
Williams
Nasareth: 10 Bugail (C)
Rehoboth: 10 Rhidian Griffiths
Eglwys Dewi Sant: 2.30 Gosber
- Bethel: 2 Gweinidog
Nasareth: 12 Raymond B.
Davies
Rehoboth: 5 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant: 2.30 Cymun
Bendigaid

Os am gynnwys manylion am
weithgareddau eich mudiad neu'ch
sefydliad yn dyddiadur y mis, dylech
anfon y manylion llawn at Aileen
Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont
(01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod
cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan
Llywodraeth
Cynulliad Cymru



Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Golygyddion y rhifyn hwn oedd
Beryl a Mair.
Golygyddion y rhifyn nesaf fydd
Gwyn a Fal: 01970 832560
maesgwyn@fsmail.net
ac Sara a Ian.
Dylai'r deunydd fod yn llaw'r
golygyddion erbyn 3 Medi a bydd y
papur ar werth ar 10 Medi.

Llongyfarchiadau

i Andrew a Lesley Lewis,
Glasfryn, Ffwrnais ar enedigaeth
Amber Marie chwaer i Holly,
Millie, Isabel ac Ava.

Cymorth Cristnogol

Yn ystod mis Mai bu casgliad
tuag at Cymorth Cristnogol ym
mhlwyf Llangynfelyn gan Olwen
Rowlands, Sue Williams a Carys
Bridon. Diolch i bawb a
gyfrannodd a chasglwyd y swm o
£183.93. Owen Jenkins oedd yng
ngofal y trefniadau ariannol.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Owain
Saunders Jones, gynt o Fferm
Fagwyr ar eu ddyrchafiad o fewn
banc Barclays fel Cyfarwyddwr
Manwerthu De-Ddwyrain
Cymru a Chymoedd y De yn
ddiweddar.

Dymuniadau gorau

Dymuniadau gorau i Richie
Evans, Glanrafon ar ôl iddo gael
ei bendics allan yn ddiweddar,
hefyd i Huw Lewis, Maesgwyn,
Tre'r Ddôl a dreuliodd gyfnod yn
ysbyty Treforus yn ddiweddar.

Newid aelwyd

Pob hwyl i Emyr, Mair a
Rhydian Jones, Maesnant, yn eu
cartref newydd yn Bow Street.
Hefyd mae teulu'r O'Donnells
wedi ymgartrefu yn Maesnant ar
ôl bod yn byw yn Banc y Felin,
Tal-y-bont ers rhai blynedd.

Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau i Yasmin Eva,
Stryd James, ar ennill gwobr y
6ed dosbarth, ysgol Penglais, am
baratoi darn ar gyfer pedwarawd
sacsoffon, "Saxtravaganza".
Perfformiwyd y darn mewn
cyngerdd arbennig yn Rhos
Gilwern, Aberteifi. Fel rhan o'i
gwobr cafodd gyfle i dreulio
diwrnod gyda phedwarawd
proffesiynol sef y Lunar Quartet.

Gerddi Bwlchrosser

Treuliodd aelodau o Glwb
Garddio Ponterwyd brynhawn
hyfryd ar Fai 22 yn mwynhau
gerddi godidog Bwlchcrosser trwy
garedigrwydd Mrs Joan Dare.

Cyfarfod Blynnyddol Papwr Pawb

nos Fawrth, 15 Mehefin
am 8 o'r gloch
yng ngwaelod Neuadd Goffa
Tal-y-bont.

Pobl a Phethe



Menter Newydd

Mae bachgen dymunol iawn wedi dechrau busnes yn Garej Ffwrnais
gyda'i bartner Lisa Morgans. Mae Luke Matthews a Lisa yn hollol
gyfarwydd a bod mewn busnes gan mai rhieni Luke sydd yn rhedeg
garej Lynwood yng Nghapel Seion, a merch Llety Parc, Llanbadarn yw
Lisa. Mae Garej Artists Valley yn gwerthu ceir, yn atgyweirio ceir,
cynnig gwasanaeth 24 awr a MOT. Pob llwyddiant i'r ddau.



Trawsgwlad yr Urdd

Llongyfarchiadau i George
Lithgow, Hafod Elerch,
Bont-goch ar ei lwyddiant yng
nhystadeuaeth trawsgwlad
cenedlaethol yr Urdd a
gynhaliwyd ym Mlaendolau,
Aberystwyth yn ddiweddar.

Eglwys St. Pedr, Elerch

Anfonwn ein cofion cywiraf a'n
dymuniadau gorau am wellhâd
buan i'n Ficer, Y Parchg John
Livingstone sydd wedi bod yn
yr ysbyty yn ddiweddar.
Cynhelir ein pumed noson o
gaws, gwin a chân ar nos Wener
25 Mehefin am 7-00 pm.
Edrychwn ymlaen yn fawr iawn
at groesawu yr artistiaid, sef Côr
Ger-y-Lli, Linda Griffiths ac
Ensemble offerynnol Taliesin.
Mae'r tocynnau yn £6 gyda
gostyngiad i blant a gellir eu
prynu gan swyddogion yr
Eglwys neu wrth y lliidiart ar y
noson.



STORFA CANOLBARTH CYMRU



STORFA
DODREFN



STORFA FUSNES
ARCHIFAU



STORFA I
FYFYRWYR



PACEDU

DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR
CCTV
WEDI GYNHESU
CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS

www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll
Machynlleth
SY20 8BQ

Tel 01654 703592

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu
gwasanaeth fframio dychmygus
o'r safon uchaf.
Cewch ddeusio o amrediad eang o
siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar
gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth,
Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Gwydion Jones

Gwaith Haf

torri gwair, paentio a.a.
Mehefin – Medi

01970 832760
07540 276181



15 Cwpan i CFFI Tal-y-bont

Mae'n anodd credu bod yr holl drafod a'r ymarferion i'r Rali wedi prysur fynd heibio a bod y gystadleuaeth wedi bod a wedi mynd erbyn hyn! Cyn hynny i gyd, cafwyd noson wych yng nghwmni Erwyd Howells am hanes Nantymoch ddiwedd Ebrill. Braf oedd gweld cyn-aelodau a chyfeillion y Clwb yn ymuno â ni! Diolch yn fawr iawn i Erwyd am ei amser a'i ffeithiau diddorol!!

Ar Sadwrn braf iawn yr 22ain o Fai (pythefnos yn gynharach na'r arfer oherwydd yr Eisteddfod), aeth Clwb Ffermwyr Ifanc Talybont a'u cefnogwyr lawr i Landdeiniol i gystadlu yn Rali'r Sir, 2010. Fel 'roedd y gwres yn codi, codi hefyd oedd nifer y cwpanau ddaeth nôl i Dalybont! Bydd yr ennillwyr yn cynrychioli Ceredigion yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf. Dyma restr ohonynt:

Gareth Ynyseidiol – Crefft

Geraint Cerrigaranau – Barnu Da Godro dan 26ain

Eifion Cerrigaranau – Barnu Moch dan 26ain

Aled Llyr – Barnu Defaid Mynydd Duon Cymreig dan 26ain

Rhydian Tynant – Cneifio dan 26ain

Gwion Tanllan – Barnu Defaid Mynydd Duon Cymreig dan 16eg

Geraint Penmpren, Rhydian Neuaddfawr a fi – Pecyn Croeso i Gymru

Timoedd Barnu Moch, Barnu Defaid Mynydd Duon Cymreig a Cneifio yn ennill hefyd!

Daeth Llyr Penbanc yn 2ail yn y cneifio ynghyd a Thim Barnu Da Godro. Richard John yn dod yn 3ydd yn Barnu Da Godro dan 16eg. A Chystadleuaeth yr Aelodau (Coginio, Crefft a Blodau) sef Dafydd Steddfa, Medi Neuaddfawr, Gareth Ynyseidiol a Mererid Cwmudw yn dod yn 4ydd, a'r Tablo hefyd yn cael 4ydd.

Enillwyd cwpan gan Dewi Tyngraig am roi rhesymau gorau trwy gyfrwng y Gymraeg; Eifion Cerrigaranau am y stocmon gorau drwy gystadleuthau barnu stoc; Aled Llyr am yr unigolyn gyda'r marciau uchaf yn yr adran barnu defaid; a'r tîm barnu stoc sef Eifion a Geraint Cerrigaranau, Dewi Tyngraig, Gwion Tanllan, Aled Llyr, Richard John, Hefin Neuaddfawr a Danielle Pryce yn ennill y cwpan i'r clwb gorau yn y cystadlaethau barnu stoc!



Ar ddiwedd y dydd, dyfarnwyd Clwb Talybont yn 2ail gyda 154 o bwytiau! Pontsiân gurodd ni tro 'ma, ond bydd awch Talybont yn gryfach i ennill flwyddyn nesaf!

Rhaid diolch i'r aelodau i gyd a gyfrannodd i'r canlyniad gwych yma ac hefyd yr arweinyddion, rhieni a'r cefnogwyr!

Wrth gloi, bydd Cyfarfod Blyneddol y Clwb yn cael ei gynnal ar y 27ain o Orffennaf!

A dyna ni! Dyna ddiwedd fy nghyfnod i fel Gohebydd y Wasg yn anffodus. Diolch yn fawr iawn i bawb a ddarlennodd y golofn!





Ysgol Gynradd Tal-y-bont

Eisteddfod yr Urdd

Gobeithio fod pawb wedi gweld plant Ysgol Tal-y-bont yn cystadlu mor frwd yn Eisteddfod yr Urdd yn Llannerchaeron. Mae'n hyfryd gallu dweud ein bod wedi profi cryn dipyn o lwyddiant hefyd. Ar y Dydd Llun cafodd merched yr ensemble offerynnol drydydd (Zoë Forster Brown, Bethan Benham, Catrin Huws, Betsan Siencyn a Seren Taylor), daeth Seren Taylor hefyd ail yn yr unawd chwythbrennau ac fe gafwyd perfformiad cofiadwy gan Glain Davies wrth lefaru i blant Blwyddyn 2 ac iau. Ar y dydd Mawrth bu Niamh O'Brien hefyd yn cystadlu ar y ddawns disgo unigol a llwyddodd hithau hefyd i gyrraedd y llwyfan a chael trydydd. Enillodd Niamh hefyd y wobwr gyntaf am y gwaith argraffu gorau yn yr Adran Celf a Chrefft. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd am berfformio mor raenus.

Ffermio

Gobeithio eich bod wedi gweld y rhaglen Ffermio ar ddechrau mis Mai. Cafwyd eitem ddiddorol iawn yn dilyn hynt a helynt soffieir yr ysgol. Dilynwyd yr wyau o'r ysgol i fwyty Ynyshir a gwelwyd sut y meant yn cael eu defnyddio mewn rysetiau yng nghegin y bwyty. Os nad ydych wedi gweld y rhaglen eto, gallwch fynd ar y we a gweld y rhaglen ar S4C/dic.



Cwis Llyfrau

Bu'r ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth y blynyddol y Cyngor Llyfrau unwaith eto eleni. Bu Miss Huw a Mrs Wallace yn hyfforddi'r plant yn ddiwyd a llwyddwyd i gyrraedd y rownd sirol. Da iawn chi.

Mabolgampau'r Ysgol

Capteiniaid Leri: **Niamh O'Brien** a **Joshua Abbott**

Capteiniaid Ceulan: **Ella Evans** ag **Alex Evans**

Marciau uchaf yn y Cyfnod Sylfaen: **Tia Johnston Jones (Leri)**

Marciau uchaf bechgyn: **Kieran Kelly (Ceulan)**/**Joshua Abbott (Leri)**

Marciau uchaf merched: **Seren Powell Taylor (Ceulan)**

Ymdrech orau: **Geraint Howard (Leri)**

Tim Buddugol: **Ceulan**

Mae'r canlyniadau llawn ar gael yn yr ysgol.

Ymdeoliad Mrs Jenkins

Mae Mrs Falyri Jenkins yn ymdeol ar ddiwedd y tymor wedi 21 mlynedd o wasanaeth. Yn garedig iawn, mae'r Lolfa wedi cytuno i dderbyn cyfraniadau tuag at dysteb iddi a bydd carden yno i bawb arwyddo. Bydd te parti yn yr ysgol am 3.30 ar 8 Orffennaf pan gyflwynir anrheg fel gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth ar hyd y blynddoedd. Bydd croeso cynnes i bawb ymuno yn y dathliadau.

Diolch i bawb

Dros yr wythnosau diwethaf rydym wedi dibynnu'n helaeth ar rieni a ffrindiau'r ysgol i gynorthwyo'r athrawon wrth hyfforddi ac ymarfer gyda'r plant mewn gwahanol feysydd. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi rhoi help llaw.

Sgwad Sgwennu

Llongyfarchiadau mawr iawn i Zoë Forster Brown ar gael ei dewis i fod yn rhan o Sgwad Sgwennu Ceredigion. Dyma gyfle unigryw i blant Blwyddyn 6 ar draws y sir gael profiadau arbennig i feithrin eu doniau ysgrifennu creadigol. Cafodd Zoë gyfle yn ystod Eisteddfod yr Urdd i gydweithio gyda'r Prifardd Hywel Griffiths, sydd bellach yn byw yn Nhal-y-bont, wrth gwrs. Da iawn ti Zoë a phob hwyl gyda'r ysgrifennu.



Mabolgampau'r Ysgol



Canlyniadau o lwyfan yr Eisteddfod

Grŵp Dawnsio Disgo Bl 7, 8 a 9

3ydd Ysgol Gyfun Penglais, (Tara Howard)

Unawd allan o Sioe Gerdd Bl.10 a dan 19 oed

1af Sam Ebenezer, Ysgol Gyfun Penweddig. Clod neilltuol i Sam fel un o'r cystadleuwyr ifanca' ac mae'n sicr y bydd pawb ar yr aelwyd yn falch iawn o'i lwyddiant gan fod Sam hefyd wedi ennill trip i'r teulu i Disneyland Paris

Ensemble Bl 7, 8 a 9

2ail Ysgol Gyfun Penweddig, (Steffan Thomas, Peter Jones)

Dawns Werin Unigol i Ferched Bl 9 ac iau

2ail Medi Fflur Evans, Ysgol Gyfun Penweddig,

Côr Bechgyn T.B. Bl 13 ac iau

1af Ysgol Gyfun Penweddig, (Sam Ebenezer)

Côr Gwerin Tri Llais Bl 13 ac iau

1af Ysgol Gyfun Penweddig, (Sam Ebenezer)

Dawns Cyfrwng Cymysg Bl 7 a dan 19 oed

2ail Ysgol Gyfun Penweddig, (Elen Ebeneser, Elan Elidyr, Medi Fflur Evans)

Ensemble 15 - 25 oed

3ydd Ysgol Gyfun Penweddig, (Sion Iori)

Yn ogystal gwelwyd y canlynol yn rhan o'r Wyl:

Plant y Fflam - y sioe gerdd uwchradd ac roedd y canlynol yn cymryd rhan: Sam Ebenezer, Jeno Lewis, Lois Jones, Elan Elidyr;

Elis Ifan, Sion Iori, **Ffanfferwyr** mewn seremoni lwyfan
A rhaid enwi un oedolyn! Gwenallt Llwyd Ifan, beirniaid y Gadair.

Llongyfarchiadau mawr i bawb a diolch iddynt am yr holl waith caled ac yn naturiol am ymdrechion a llafur eu hyfforddwy

Hugh Tanrallt, Taliesin

O'r pedwar ohonom blant Rehoboth, Taliesin, a aeth i'r weinidogaeth yn yr ugeinfed ganrif roedd Hugh, mab Rees ac Elizabeth Jones, Tanrallt yn un. Roedd ei dad wedi dod o Gwmbelan, Llangurig yn was i Flaeneinion, Ffwrnes ac wedi iddo briodi Elizabeth, chwaer David Lloyd, Alltcaemelyn, Uwch-y-garreg, cartrefwyd i ddechrau yn Nhaliesin (drws nesaf i Siop Jones y Sâr), a Thyngwndwn, Pentre Bach, cyn mynd i ffermio Tanrallt. Roedd Winifred, merch David Lloyd yn ail wraig i Lewis Williams, Penrhos Mawr, Penegoes, hanner brawd fy nhad-cu, William Richards.

Roedd gan Hugh, Tanrallt ddwy chwaer, Ruth a Gladys (buont yn athrawesau ysgol Sul arnaf), a dau frawd, Gwilym, blaenor yn Rehoboth ac aelod amlwg o'r Cyngor Sir, a olynodd ei dad yn y fferm, a David Lloyd, Gwarcwm, Capel Madog, a enwyd ar ôl ei dad-cu. Addysgwyd Hugh yn Ysgol Llangynfelyn (cofiat ef yn ymweld â ni ar 18 Chwefror 1944), Ysgol Ardwyn, Colegau Prifysgol (ennill gradd dda yno) a Diwinyddol, Aberystwyth, a Choleg y Bala. Ar ôl ei ordeinio yn Sasiwn Glyn Ebwy bu'n weinidog ym Mhonteddfechan o 1933 i 1936. Symud ym 1936 i'r Tabernacl Cwmafan (ysgrifennodd lyfryn am yr eglwys) a phriodi Bessie, merch hynaf y Parchedig Robert Griffiths (o'r Ponciau) gweinidog y Bedyddwyr ym Moreia, Pentre, Rhondda, a'i briod Jemima o hen gyff Dafisiaid, Maestwynog, Porthyrhyd, sir Gâr.

Bessie oedd y ferch gyntaf i gael gradd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd, a hi oedd y cyntaf o'i theulu i fod yn aelod selog o Blaidd Cymru. Fe'i disgrifiwyd gan Kate Roberts mewn llythyr at D.J. Williams, fel un "siriol, cywir, hapus a gweithgar". Un o'i brodyr oedd yr ysgolhaig John Gwyn, tad Robat y Lofla a Heini ei frawd. Symudodd Hugh a Bessie i eglwys enwog y Goppa, Pontarddulais, ym 1944, a chanmolwyd y gweinidog fel bugail craff a gofalus ac yn ffefryn gan y plant a'r bobl ifanc.

Ond ar 5 Tachwedd 1947 bu trychineb enbyd pan gafwyd Hugh a Bessie yn farw yn eu gwely am fod nwy yn gollwng o beipen, ar ôl i hoelen fynd drwyddi wrth adnewyddu'r mans. Roedden nhw i fod i godi'n gynnar i fynd i gwrdd sefydlu bachgen o'r Goppa. Rwy'n cofio'r tristwch mawr yn Nhaliesin ac yn cofio pobol fu yn yr angladd yn dweud mai dyna'r cynhebrwng mwyaf a welwyd gan bawb oedd yno. Roedd Rees tad Hugh yn wael iawn ar y pryd, a bu farw mewn deunaw niwrnod ar ôl ei fab. Claddwyd Hugh a Bessie yn ymyl gweinidogion blaenorol y Goppa a phan euthum i bregethu yno yn nyddiau coleg gwelais y maen coffa tu mewn i'r capel sy'n disgrifio mab Tanrallt fel 'Pregethwr myfyrgar a gweithiwr tawel, bugail ffyddlon a chyfaill hoff'.

Fel ei phriod, roedd Bessie yn gymeradwy iawn yn y pulpudau a chlywais gyfeillion y Goppa yn canmol y cyd-weinidogaethu. Dim ond 39 oed oedd Hugh, a Bessie yn 41. Roedd Hugh yn darllen pob llyfr a chylchgrawn Cymraeg ac yr oedd yn lenor da. Bydd raid imi sôn yn y rhifyn nesaf am ei ysgrifau yn *Y Drysorfa*, a'i draethawd buddugol 'Adloniant Cefn Gwlad - Ddoe, Heddiw ac Yfory', yn Eisteddfod Genedlaethol Llandybie 1944, dan feirniadaeth Meic Parry a Dai Williams, Tregaron.

W J Edwards

Cymorth Cristnogol Tal-y-bont

Cafwyd casgliad arbennig o dda eto eleni yn ardal Tal-y-bont tuag at Gymorth Cristnogol.

Dyma'r manylion:

Ardal Bontgoch (Geraint Evans)	£65.01
Maesyderi (Helen Jones, Lyn Ebenezer)	£66.48
Penlôn a'r Ffald (Menna Morgan, Bleddyn Huws)	£179.73
Pensarn/Cwm Ceulan (Gwilym Jenkins)	£99.68
Pentref Tal-y-bont (Marie Fox, Catrin MS, Ruth Jên)	£104.72
Ardal Cynnullmawr (David Nutting)	£116.74
Stryd y Capel (Falyri Jenkins)	£162.49
Gwaelod y Pentref (Lisa Tomos)	£156.81
Parsel Henllys (Wendy Watkin, Janet Jones)	£112.00
Cyfanswm o dŷ i dŷ	£1,063.66
Cyflwynwyd £104 i'r apêl, sef casgliad y noson pan ddaeth Cwmni'r Morlan gyda'i sioe "Damien, Tomos ac Arianwen Wen Wen" i ymweld â Chapel Bethel ddiwedd mis Ebrill. Gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn. Diolch hefyd i'r casglwyr, maent yn gwneud gwaith arbennig o dda, a chi fobl Tal-y-bont a'r ardal am eich rhoddion. Y cyfanswm terfynol oedd £1,167.66.	

Janet Jones

Cyfarfod y Chwiorydd, Rehoboth

Daeth tymor arall i ben ar brynhawn Mawrth 13eg, ein gwestau oedd Gwilym Jenkins, Talybont a'i ddi-ddordeb yw cyfweled a chymeriadau a'i cofnodi ar lafar a ffilm, gyda chymorth Anne, hithau yn rhannu yr un diddordeb.

Hanes cymydog iddo sef, Defi Tomos Lloyd, Penrhiw, Ganwyd ef yn 1912 a chymerwyd y ffilm yn 1993. Cafwyd hanes ei fagwraeth a'i fywyd fel gwas fferm yn Neuadd Fawr, a theuluoedd Cwm Pensarn. Diddorol iawn oedd adroddiad Eurfyn Williams, Gwarcwm Isaf am gapel Tabor, Bedd Taliesin a charreg enfawr yng nghoed Pensarn a dybir mae amlogfa oedd yno, yn dyddio nôl cyn oed Crist.

Ymlaen i Garregadwgan yn frith o hanes achael gair a Ifan. Yno gwelwyd ar ben y bryn gylch mawr o gerrig lle credir y cynhaliwyd ymladd ceiliog ers llawer dydd. Clywyd lleisiau swynol Beti, Delyth a Meinir yn canu "Llynnoedd".

Eirlys a Non fu yng ngofal y rhaglen am y bum mlynedd ddiwethaf a carwn ddiolch yn fawr iddynt am raglen hwyliog a diddorol.

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

BORE COFFI a sêl
i godi arian tuag at
CATS PROTECTION lleol
(Aberystwyth a'r cylch)

**Raffl, stondinau ac un yn
cynnwys pethe i pws fach**

**Dydd Sadwrn 26fed Mehefin
10:30yb - hanner dydd - Yn y
Neuadd Goffa Talybont**

Mynediad £1 Plant am ddim
(trefnir gan Sheila Talbot, Tŷ
Clyd, gyda ffrindiau yn helpu)



Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**CODI Tŷ NEU
ESTYNIAD?**



Iwan Jones, Technegydd Pensaernïol
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
01970 832760

Beirniadu yn Sioe'r Cardis

Eleni yn y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd bydd pedwar o feirniaid yn dod o gylch Papur Pawb. Gan mai "Sioe'r Cardis" fydd hi - anrhydedd o'r mwyaf bydd cael beirniadu ynddi.

Ar y bore dydd Llun, yn nhlydych Neuadd Arddangos De Morgannwg bydd Dilys Morgan, Alltgoch yn brysor yn beirniadu yn yr adran Gwaith Llaw a Brodwaith. Dechreuodd ei diddordeb mewn gwaith llaw a brodwaith tra'n ddisgybl yn ysgol Taliesin gyda Miss Dorothy Owen drwy wniö binca bras. Er mawr siom iddi doedd dim llawer o waith llaw yn cael ei wneud yn yr ysgol Uwchradd, ond ar ôl symud i'r coleg Normal ym Mangor i astudio Gwyddor Tŷ - fe ganolbwyntiodd Dilys ar y gwaith llaw. Datblygodd ei diddordeb ac fe ehangudd ei gallu drwy ddarllen llyfrau. Mae'n cyfaddef ei bod yn "dda am crochet ond ddim yn gallu gwau". Yn ystod y gaeaf fe fydd Dilys wrthi'n brysor yn cynnal dau ddosbarth brodwaith, un ym Mhenparcau ar llall yng Nglantwymyn. Mae Dilys yn cystadlu llawer yn y sioeau lleol a chenedlaethol - erbyn hyn mae hi wedi ennill naw o dlysau gwydyr yn Llanelwedd. Yn ogystal â hyn mae Dilys wrthi'n teithio'n rheolaidd ar hyd a lle y sioeau yn beirniadu.

Bydd yna brydurdeb mawr yng nhyllch y defaid hefyd ddydd Llun y Sioe. Fe fydd Gaenor Burrows a Bethan Watkin yn beirniadu. Merched Alun Isaac Penryraig, Tre'r Ddôl gynt, ydynt. Roedd Alun Isaac yn un o'r aelodau gwreiddiol a sefydlodd Gymdeithas y defaid Torddu a Torwen yn 1976. Fe fydd Gaenor yn beirniadu'r defaid Torddu Cymreig yn y bore, tra bydd rhaid i Bethan aros tan y prynhawn i feirniadu'r defaid Torwen. Er fod Gaenor wedi symud i fyw bellach i ardal Mynydd Cerrig ger Pontyberem, mae'n dal i fentro i Ogledd Ceredigion i arddangos ei defaid ac i gefnogi sioeau lleol gyda'i phartner, Glyn King. Yn ystod y blynyddoedd mae Gaenor wedi ennill Pencampwriaeth brid y Torddu Cymreig yn y Sioe Frenhinol sawl gwaith. Dyw Bethan ddim wedi teithio cyn belled, dim ond i Flaenwaun, Borth ond fe'i gwelir hithau yn amal yn beirniadu a chefnogi sioeau lleol gyda'i phlant Tomos a Hanna.

Dydd Mawrth fydd y diwrnod prysur i Rowland Davies, Dolclettwr. Fe fydd yntau eleni yn cael beirniadu'r defaid Dorset Moel a Chornio. Dechreuodd ei braidd o ddefaid *Poll Dorset* yn 1992 gyda phump o ddefaid pur. Erbyn hyn mae'r nifer wedi cynhyddu i gant. Fe enillodd Bencampwriaeth y brid ddwywaith yn y sioe Frenhinol, yn gyntaf yn 1996 ac yna yn 2002. Mae Rowland yn Gadeirydd Cymdeithas Cymru y brid a'r Gymdeithas Brydeinig ers pedair blynedd ac fe fydd yn amal yn teithio i lawr i Dorchester i ryw gyfarfod neu'i gilydd. Yn 2006, ac eto y llynedd fe gafodd Rowland ei wobrwyo gyda Chwpan Coffa Peter Mead am ei gyfraniad i'r Gymdeithas.

Pob lwc iddynt ar eu gwaith yn beirniadu - mi fydd yn brofiad unigryw a chofiadwy i bob un ohonnynt.

B.D. a M.F.

Gwasanaeth Bws Newydd

O ddydd Llun Mehefin 21 bydd Cwmni Bysiau Lloyds yn rhedeg gwasanaeth bws newydd o Dywyn i Aberystwyth ac yn ôl. Mae gwasanaeth X28 ar gael o ddydd Llun i ddydd Sadwrn a'r amseroedd yn Nhal-y-bont yw 7.52, 8.22, 9.52 ac ar yr un amser bob awr tan 17.52 i gyfeiriad Aberystwyth. Amseroedd y teithiau i gyfeiriad Machynlleth yw 8.48, 9.23, 9.48 ac yna ar yr un amser bob awr tan 18.48. Amseroedd i Dre'r Ddol, Taliesin ychydig yn gynharach/hwyrach. Manylion llawn ar wefan Cwmni Lloyds www.lloydscoaches.com

Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235



Bydd Arddangosfeydd Cyhoeddus ar ddatblygiad

Fferm Wynt Nant y Moch
yn cael eu cynnal ar

Dydd Mercher 16 Mehefin 2010 - 3yh - 8yh:
Neuadd Penrhyn-coch

Dydd Iau 17 Mehefin 2010 - 3yh - 8yh:
Y Plas, Machynlleth

Dydd Gwener 18 Mehefin 2010 - 3yh - 8yh:
Neuadd Goffa Tal-y-Bont

Dydd Sadwrn 19 Mehefin 2010 - 9yb - 2yh:
Neuadd Capel Bangor

Croeso cynnes i bawb. Cyfle i wybod mwy am y cynllun.

www.ffermwyntnantymoch.com

Os am daci neu fws mini

**CAMBRIAN
CABS**

Teithiau Pell ac Agos
01970 626292

CEFNOGWCH GYMRO LLEOL

H. LLOYD WILLIAMS
CYNNAL A CHADW GERDDI
TORRI PORFA A SIETYN,
GOSOD DECKING A SLABIAU

DOES DIM YN ORMOD O WAITH!

32 Bryncastell Ffôn: 01970 820699
Bow Street Symudol: 07966 105519



Glanyrafon

Am y pris gorau a dewis eang o deiers cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan

ALIGNMYCAR.CO.UK

Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM



BF Goodrich



KUMHO TYRES

Ffôn 01970 636774



Rhodfa'r Parc

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 24 Mai, etholwyd y Cyngorydd Gerwyn Jones yn Gadeirydd a'r Cyngorydd Eric Roberts yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2010/11. Enwebwyd hefyd aelodau i wasanaethu ar yr Is-bwyllgor Ariannol ac Is-bwyllgor y Fynwent.

Cyflwynodd y Clerc adroddiad cryno o'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Cyfanswm derbyniadau'r Cyngor oedd £13,960.57. Ymhlith prif ffynonellau'r incwm a dderbyniwyd roedd yr archebiant (£12,000); ad-daliad o gostau'r fynwent am 2007/08 (£781.20); taliadau'r Fynwent (£378); ad-daliad TAW 2008/09 (£792.95). Cyfanswm y costau am y flwyddyn oedd £13, 473.30. Y prif daliadau oedd costau gweinyddol (£3,372.94); Cynnal a Chadw'r Fynwent (£2,372.94); Cynnal a Chadw gweddill eiddo'r Cyngor (£1,580.09); yswiriant (£1,035.36); goleuadau Nadolig (£667.32) a TAW (£598.18). Hefyd dosbarthwyd cymorthdaliadau i sefydliadau a chymdeithasau lleol ac i elusennau sirol a chenedlaethol (£3,555).

Cyn cloi'r Cyfarfod Blynyddol cyflwynodd y Cadeirydd, y Cyngorydd Megan Mai, adroddiad byr o'r prif faterion a drafodwyd yn ystod 2009/10 a therfynodd trwy ddiolch i'r aelodau am y fraint o gael cadeirio'r Cyngor, a hynny am y trydydd tro. Talodd ddiolch i'w chyd-aelodau ac i'r Clerc am eu cefnogaeth barod yn ystod y flwyddyn, a diolchodd yn arbennig i'r Is-gadeirydd, y Cyngorydd Gerwyn Jones, am lenwi'r bwlch yn ei habesoldeb. Dymunodd y gorau iddo ar ddechrau ei dymor yntau fel Cadeirydd.

Yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol cynhaliwyd cyfarfod busnes y Cyngor gyda'r Cyngorydd Gerwyn Jones yn y Gadair. Agorodd trwy ddiolch i'r Cyngorydd Megan Mai am ei harweiniad doeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Diolchodd i'r aelodau am ddangos ymddiriedaeth ynddo trwy ei enwebu'n Gadeirydd i'w holynu.

Adroddwyd bod tua 120 o daflenni wedi'u dosbarthu yn annog y trigolion oedd yn byw ar bwys y ffordd fawr i osod baneri a byntin i

groesawu ymwelwyr oedd yn teithio i Eisteddfod yr Urdd yn Llanerchaeron. Da oedd gweld yr ymateb rhagorol a gafwyd, gyda nifer dda o deuluoedd a busnesau'n ymateb yn gadarnhaol i'r cais. Cytunwyd i lunio llythyr ar gyfer *Papur Pawb* yn diolch i bawb am eu cydweithrediad.

Mewn ymateb i gais y Cyngor am wagio biniau sbwriel ger y Patshyn Glas, derbyniwyd llythyr yn dweud y bydd y Cyngor Sir yn delio â'r mater. Er bod pethau'n ymddangos rhywfaint yn well, bydd angen aros i weld beth fydd y sefyllfa yn ystod Gŵyl y Banc ar ddiwedd y mis. Adroddodd y Cyngorydd Nest Jenkins fod y sbwriel adeiladu bellach wedi'i glirio o chwarel Fronlas.

Nodwyd bod y Cadeirydd, y Cyn-gadeirydd a'r Clerc wedi mynychu cyfarfod ar ddyraniadau aneddiadau Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion. Yn sgil yr wybodaeth a gafwyd gan swyddogion y Cyngor Sir, galwyd cyfarfod arbennig o'r Is-bwyllgor Cynllunio i lunio ymateb ar ran Cyngor i'r argymhellion ar nifer y tai a'r safleoedd arfaethedig i bentref Tal-y-bont.

Darlennwyd llythyr yn achwyn am y camddefnydd a fu o hysbysfwrdd cyhoeddus Bont-goch ers rhai blynyddoedd bellach, a gofynnwyd i'r Cyngor ystyried codi hysbysfwrdd newydd ac iddo ddrws gwyrdr a chlo. Cytunwyd i anfon llythyr at Gyngor Plwyfol Eglwys Elerch yn tynnu sylw at y gŵyn, a'u gwahodd i rannu'r baich o godi a rheoli hysbysfwrdd newydd gyda'r Cyngor Cymuned.

Derbyniwyd dogfen ymgynghorol yn amlinellu'r gwahanol dulliau a ddefnyddir gan SSE Renewables wrth ymgynghori â'r cymunedau yr effeithir arnynt gan ddatblygiad Fferm Wynt Nant-y-moch. Nid oedd unrhyw sylwadau i'w cyflwyno ar y ddogfen.

Nid oedd unrhyw sylw gan y Cyngor chwaith ar gais i godi garej newydd ar dalcen deheuol Lerry View. Adroddwyd i'r cais i godi twrbein gwynt ar dir Argoed Fawr fod yn llwyddiannus.

Ymlaen a'r Sioe, y cardi a'r Sioe Frenhinol

Ymlaen a'r Sioe, y cardi a'r Sioe Frenhinol gan Charles Arch a Lyn Ebenezer. Rhagair gan Dai Jones, Llanilar, Llywydd Sioe'r Cardis 2010, Gwasg Gomer £12.99.

Go brin fod neb bellach heb glywed am Eisteddfod yr Urdd, Llanerchaeron a Sioe'r Cardis, Llanelwedd 2010. Gyda'r holl ymdrech ar draws y sir i godi arian ar gyfer y ddau ddigwyddiad, mae'n amhosib osgoi'r bwrllwm.

Ar ôl Eisteddfod lwyddiannus yr Urdd yn Llanerchaeron rhaid bellach edrych ymlaen at y Sioe Fawr ym mis Gorffennaf, y sioe mae'r Cardis yn noddi eleni. Yn ogystal â nifer o ddigwyddiadau diddorol ar draws y sir i godi arian, cynhyrchwyd CD o gantorion a enillodd Ruban Glas y Brifwyl a bellach mae llyfr swmpus lliwgar dwyieithog ar werth.

Braslun a geir yn 'Ymlaen a'r Sioe' o gyfraniad mawr Ceredigion i'r Sioe yn Llanelwedd ar hyd y blynyddoedd. Mae'n amlwg ar ôl darllen y llyfr a sylwi ar y lluniau ardderchog y cyfraniad mawr a wnaed gan gystadleuwyr o ogledd y sir a hynny mewn nifer o gystadleuthau gwahanol. Ceir pennod gyfan, yn haeddiol, yn sôn am deulu Jenkins Cerrigaranau yn hyrwyddo'r Gwartheg Duon a hyn dros bedair cenhedlaeth. Awdur y bennod ar 'Greff y Cardis yn Dwyn Ffrwyth' yw Dilys Morgan, Alltgoch, cystadleuydd brwd, stiward yn yr adran grefft ac eleni yn cael y fraint o feirniadu. Yn adran y defaid ceir lluniau o Enoc a Dewi, Tyngraig, Rowland Davies, Dolclettwr a theulu Isaac, Tre'r ddôl.

Mae'r clawr deniadol, lliwgar yn tynnu eich sylw yn syth. Dyma lyfr hawdd ei ddarllen ac o ddiddordeb i bawb sydd wedi ymweld â Llanelwedd yn flynyddol ac wedi ymddiddori yn nigwyddiadau'r Sioe Fawr.

Cymdeithas y Gwartheg Duon Cymreig

Cynhaliwyd Cwrdd Blynyddol Cymdeithas y Gwartheg Duon Cymreig yn Llety'r Parc, Aberystwyth ar yr 8fed o Fai, 2010, gyda Mr. Trefor Jones, Cwmcae yn llywyddu. Hwn oedd ei weithred olaf fel Llywydd, a cafodd y fraint o gyflwyno'r cwpan am darw gorau'r flwyddyn i'w fab, Huw. Ddim yn aml mae hyn yn digwydd. Yn dilyn y cyfarfod, cafwyd cinio ardderchog yn Llety'r Parc, a'r cig eidion arbennig wedi ei gynhyrchu gan Huw ar ei fferm, Gwarcwm Etifedd. Y gŵr gwadd oedd Charles Arch, a gyflwynwyd gan Bob Williams, Penywern, cadeirydd y Cyngor, a cafwyd araith hwyliog a diddorol iawn ganddo.



Cymdeithas Gwartheg Duon Cymreig, Trefor Jones, Llywydd y Cymdeithas, a'i wraig, Eirwen, Cwmcae.

Ysgol Gynradd Llangynfelyn

Amgueddfa Wlân

Cafwyd llawer o hwyl a dysgwyd llawer am yr hen ddiwydiant gwlan yng Nghymru wrth i ddisgyblion CA2 ymweld â'r Amgueddfa Wlân yn Nrefach Felindre yn ddiweddar.

Rhieni yn cael cinio ysgol

Bu llawer o gyffro yn ystod y mis wrth i rieni'r Cyfnod Sylfaen cael gwahoddiad i flasuo cinio'r ysgol. Fe ddaeth nifer o rieni i gael cinio efo'u plant. Bu clod mawr i ginio Mrs Byrne.

Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol

Mae disgyblion ac athrawon yr ysgol wedi elwa yn sylweddol wrth i ni gael bwrdd gwyn rhyngweithiol newydd i ddosbarth CA2. Golyga hyn fod bwrdd gwyn rhyngweithiol ar gael yn y ddau ddosbarth erbyn hyn.

Clwb coginio

Mae disgyblion CA2 wedi elwa o glwb coginio wythnosol. Pob prynhawn dydd Gwener mae'r gogyddes Mrs Byrne yn dysgu grwpiau o ddisgyblion sut i goginio – mae'r bwyd yn aroglu ac i'w weld yn flasus iawn – gofynnwch i rieni'r ysgol os ydy'r bwyd yn flasus neu beidio.

Clwb Garddio

Mae'r Clwb Garddio sy'n cwrdd ar ôl ysgol ar Ddydd Iau wedi bod yn brysus iawn yn plannu llysiau, plannu coed bach, glanhau'r pwll natur, paentio sied yr ardd a'r ffens a phlannu blodau. Rydym yn edrych ymlaen i flasuo'r llysiau ffres cyn bo' hir.



Cwningen fawr

Daeth Miss Claire Watkin ag un o'i chwingod mawr i weld plant CA1 yn y Caban yn ddiweddar. Roedd y plant wrth eu bodd yn gweld y gwningen a oedd bron mor fawr â rhai o'r plant lleiaf. Dymunwn bob lwc i Miss Watkin ar ei chwrs Gofal Plant yng Ngholeg Ceredigion ar ôl iddi orffen ei phrofiad gwaith yn yr ysgol.

Noson Gwis

Cafwyd noson dda iawn yn ddiweddar efo'r PTA wrth iddynt drefnu noson gwis yn y Llew Gwyn yn Nhal-y-bont. Codwyd swm helaeth ar gyfer cronfa'r ysgol. Diolch i bawb a gymerodd ran.

Sioe y Foel Welsh

Diolch i'r holl rieni a ffrindiau'r ysgol a fu'n helpu ar y stondin te a chacennau yn y Foel Welsh Show. Codwyd dros £150 i gronfa'r ysgol (PTA).

Merched y Wawr

Yn 2002, enillodd yr awdures Angharad Price, y Fedal Ryddiaith am ei chyfrol 'O Tyn y Gorchudd'. Mae'r gyfrol yn adrodd hunangofiant Rebecca Jones, un o deulu fferm Ty'n y Braich, ger Dinas Mawddwy, ac ar nos Lun, 17 Mai fe deithiodd yr aelodau yno.

Fe'n croesawyd yn gynnes iawn gan Olwen, sydd, ar hyn o bryd, yn ffermio yno gyda'i gwr a'i mab. Y mae Olwen yn derbyn nifer fawr iawn o ymwelwyr yn ystod y flwyddyn ac yn casglu at achosion da yn sgil hyn.

Rhoddodd ychydig o hanes y teulu i ni ac yn benodol, stori'r tri brawd dall a aned yno, cyn ein harwain ar daith gerdded draw i Faesglasau. Gwelwyd y cwm, yn sicr, ar ei orau ar y noson hyfryd o wanwyn hwn. Wedi cyrraedd Maesglasau cafwyd rhagor o hanes diddorol y teulu ac wrth gwrs gyfeiriadau at gyfrol Angharad. Bu llawer o siarad a holi cyn troi yn ôl am y ffermdy.

Yn y ffermdy neilltiwyd ystafell ar gyfer arddangos creiriau hynod y teulu, yn luniau, llythyrau ac arteffactau ac fe'n rhyfeddwyd gan y casgliad.

Yna, ffarweliwyd a 'Thy'n y Braich' a theithiodd yr aelodau i'r Llew Coch, Dinas Mawddwy ble cawsom groeso Cymreig a swper blasus iawn.

Yn dilyn y swper cawsom gyfle i edrych ar ffilm fer yn dangos sut yr oedd y brodyr dall wedi llwyddo i fyw bywydau llawn a diddorol. Cyn troi am adre, cyflwynwyd casgliad ariannol, oddi wrth yr aelodau, i Olwen, i'w helusen dewisiedig - Ymchwil Cancr y Fron.



Dadorchuddio Murlun

Daeth anrhydedd annisgwyl i ran Mrs Valma Jones, Wern, Tal-y-bont yn ddiweddar pan ofynnwyd iddi ddadorchuddio murlun ar wal ysgol Trefeurig.

Tua dwy flynedd yn ôl daeth grŵp o unigolion wedi ymddeol at ei gilydd i gymdeithasu yn Nhrefeurig a galw eu hunain yn 60+. Penderfynwyd fod angen her, a chan fod yr ysgol wedi cau ac yn ganolfan gymdeithasol yn unig bellach i'r gymuned, cafwyd syniad i greu murlun ar wal yr ysgol. Mae thema'r paneli o gwmpas y murlun wedi ei seilio ar y saith pentref sydd yn nalgylch yr ysgol a map bach yn y canol yn dangos lleoliad y saith pentref.

Bu Valma Jones yn brifathrawes Ysgol Trefeurig am ddegawd rhwng 1971 a 1981, a bu ei chyfraniad yn allweddol yn sefydlu'r ganolfan yno o'r cychwyn. Yn naturiol felly fel arwydd o werthfawrogiad yr ardal gofynnwyd iddi ddadorchuddio'r murlun.

Os oes diddordeb gan ddarllenwyr Papur Pawb i weld y murlun gellir cysylltu â Mrs Edwina Davies ar 828296.



Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@yloffa.com



TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
yloffa@yloffa.com
www.yloffa.com

Pigion o'r deunydd a ddarlledwyd ar y Talwrn radio

Cwpled caeth ar yr odl os
Gwahanu Nel a'i gŵn nos,
Mae hynny yn gam anos.

Gwenallt Llwyd Ifan

Pennill Ymson: Mewn bwyty

Fe gefais i gynnig lot fawr o
ddanteithion

Mewn bwyty amrywio o Fôn i
Fanceinion,

Ond neithiwr yn Aber fe'm synnwyd
yn fawr

Rhyw eiliad ar ôl i fi eistedd i lawr.
Daeth gweinydd ffroen uchel draw
ataf yn gloi,

A chynnig rhyw fenyw i fi, wnaeth y
boi.

Mi wn fod yr oes wedi newid yn arw,
Ond menyw cyn bwyd, wel yn wir,
ar fy marw!

Phil Davies

Cywydd: Cwlwm

Y noson ar ward iasol
ein llid ni, lleuadau 'nôl,
gofid chwyl fu'n ein dilyn
mor gaeth rhwng y muriau gwyn.
Unwyd ni yn rhieni
gan waed dwfn pan ganed hi.

A daeth ymdrech y fechan
a'n hofnau'n y golau gwan,
yn llinyn holl lawenydd,
yn dynn yng nghwlwm y dydd.
Ac o hyd dof i godi
merch y wawr i 'mreichiau i.

Gwenallt Llwyd Ifan

Limrig yn ymwneud â
cherddoriaeth

Do, mi es i dŷ Ray i weld soffia
'So soffia tŷ Ray yn un tila
Er bod Ray'n ffati

A'i ladi'n doti
Prynaiss soffia tŷ Ray, reit i wala!

Phil Thomas

Pennill Dychan: Iawndal
(I'r Aborigine)

Ers amser y breuddwydion
Pan grëwyd creigiau'r paith,
Bûm yma'n blasu rhyddid
Yr eangderau maith.

A'm hiawndal am oroesi
Pob celwydd, ar fy ngwir,
Yw'r rhyddid i edwino
Mewn cilcyn cefn o dir.

Phil Davies

Englyn cywaith: Cadair

Nid y clod am yr odli - a'm
llonnodd,
na'm lluniau'n y 'Weekly'
chwaith, ond gweld ei hadwaith hi:
"Na ddel, am sêr i ddoli!"

Anwen Pierce

Englyn ar y pryd: Dŵr

Erfyn wnaif am haf o hyd - awyr glir,
A'r glaw heb ddiweryd
Dros uchel glawdd fy hawddfyd,
Ar bawb megis dagrau'r byd.

Phil Davies

Byffalo Dŵr

Os ewch chi i warchodfa Gweilch Dyfi jyst tu hwnt i Landyfi yn ogystal â'r adar ysglyfaethus fe welwch chi anifeiliaid tra anarferol. Mae Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn, sy'n rhedeg y lle, wedi dod a sawl byffalo dwr i'r warchodfa ac mae'r creaduriaid yn chwarae rhan bwysig yng ngwaith cynnal a chadw tirwedd y llecyn. Mae'r byffalos wedi dod o fferm gerllaw Wrecsam ac yno roeddent yn cael ei godro a'r llaeth yn cael ei ddefnyddio i wneud caws mozzarella byffalo. Mae'r anifeiliaid yn dod i Landyfi yn hwyr yn y Gwanwyn ac yn pori'r gors ac felly yn creu cynefin ddelfrydol i'r gweilch ac adar eraill y warchodfa i nythu. Mae'r byffalos hefyd yn rholio yn y mwd y gors a thrwy hynny yn sefydlu mannau i bryfetach sy'n rhan allweddol o fwyd yr adar. Yn wreiddiol anifail o Asia yw'r byffalo dwr ond mae'r rhai sydd yng Nglandyfi o frid Ewropeaidd ac yn dod o Rwmania. Yn ôl Emyr Evans rheolwr y Warchodfa mae'r byffalos wedi setlo i'r fath raddau fel eu bont wedi bridio yno gyda dau lo bach wedi ei geni yng Nglandyfi. Y Gweilch yn nythu, y byffalos dwr yn pori a'r adar a'r creaduriaid yn cyd-fyw yn berffaith.

Sefydliad y Merched Taliesin

Yn cynnal te prynhawn mefus a hufen yn Pen y graig, Tre'r-ddol.
Dydd Sadwrn 31 o Gorffennaf. 2 tan 4 y prynhawn.
Tuag at elusen Ffagl Gobaith (Beacon of Hope).

Croeso i bawb.

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278

**Cawod Defaid Symudol
ARTHUR MORGAN**
Dosbarthwn a gwaredwn 'dip defaid'



Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Ychydig wythnosau yn ôl, fe gyhoeddodd Cyngor Sir Ceredigion adroddiad ar gynlluniau i gau ysgolion cynradd yn ardaloedd Tregaron a Llandysul gan greu ysgolion newydd ar gyfer disgyblion 3 – 19 oed yn yr ardaloedd hynny. Mae'r cynlluniau yma yn arloesol ac a fydd yn golygu newid mawr i'r modd mae addysg yn cael ei ddarparu yn y cymunedau o dan sylw. O ganlyniad, mae'n hanfodol fod y Cyngor Sir yn ymgynghori'n drylwyr ar y cynlluniau. Rwyf innau eisoes wedi mynychu cyfarfod cyhoeddus yn Nhregaron ar y cynlluniau a chwrdd â rhai o rieni'r ardal er mwyn trafod eu pryderon, ac fe fyddaf yn cwrdd â rhieni yn ardal Llandysul i glywed eu barn hwythau.

Daeth newyddion da i'r Llyfrgell Gyhoeddus yn Aberystwyth yn ddiweddar wrth i'r Gweinidog Treftadaeth gyhoeddi y bydd £300,000 ar gael ar gyfer gwella cyfleusterau'r gwasanaeth. Mae yna sôn ers tro ynghylch cynlluniau i symud y llyfrgell o'i lleoliad anaddas presennol i Neuadd y Dref, ac rwy'n gobeithio y bydd y cyllid sylweddol hwn yn golygu y gall hyn nawr ddod yn realiti.

Ymwelodd grŵp o fyfyrwyr sy'n astudio Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth â'r Senedd yn ddiweddar ac roeddwn yn falch iawn o'r cyfle i gael cwrdd â nhw. Roedd gan y bobl ifanc gryn ddiddordeb yng ngwaith y Senedd, ac yn benodol yn y ffordd mae datganoli wedi newid y system wleidyddol yng Nghymru.

Yn olaf, mae'r buddsoddiad ar y cyd rhwng Llywodraeth y Cynulliad a BT i uwchraddio'r system ffôn yng Nghilcennin er mwyn medru cynnig gwasanaeth band eang wedi bod yn llwyddiant gyda nifer o drigolion lleol nawr yn cysylltu'n ddidrafferth a'r we. Roeddwn felly'n falch i dderbyn gwahoddiad i ymweld â'r pentref a siarad yng nghyfarfod blynyddol Cilcennin Cyntaf, cwmni cydweithredol oedd wedi braenu'r tir ar gyfer y buddsoddiad ac ymgychu am well cysylltiad â'r rhyngwyd i'r ardal. Fodd bynnag, mae yna nifer o ardaloedd yn y sir sy'n parhau i fethu derbyn gwasanaeth band eang ac fe fyddaf yn parhau i ymgych i sicrhau gwell cysylltiad â'r we iddynt hwythau.

Llwyddiant Einion

Cynhaliwyd Rali Bro Ddyfi yn ddiweddar ac ar ddiwedd y Rali dyfarwnwyd Einion Williams, Penrhos, Tal-y-bont yn gyd-yrwr gorau y dosbarth nofis, dechrau da dalier ati.



Canlyniad BLE YN Y BYD

Rhys Huw Evans, Uwch y Nant Borth – tocyn llyfrau £10.00 ar y ffordd.
Ateb cystadleuaeth mis Mawrth: Capel Pensarn.

Ble yn y byd?

Sut i chwarae

Ble yn nalgylch Papur Pawb mae'r llun yma wedi cael ei dynnu?

Ateb

Enw

Cyfeiriad

Côd Post

Rhif Ffôn

Atebion: i Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont erbyn 3 Medi.

Gwobr: Tocyn Llyfr gwerth £10

i'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.



CHWARAEON

Datblygiadau Cyffrous

Breuddwyd i lawer o gefnogwyr pêl-droed yn Nhal-y-bont a'r cyffiniau dros y blynyddoedd oedd sefydlu maes sefydlog ar gyfer y timau lleol – yn ieuencid ac oedolion. Erbyn heddiw mae Papur Pawb yn medru adrodd bod yr uchelgais hwn gam yn nes wrth i berchennog y maes ger ffordd fawr Maesnewydd - maes a ddefnyddiwyd gan dîm pêl-droed Tal-y-bont rhwng 1982 a 2001 - gytuno i osod y cae ar les ar gyfer pwrpasau chwaraeon. Er mai am gyfnod o bum mlynedd bydd y les, mae hwn yn rhoi cyfle i drefnwyr pêl-droed lleol ddarparu cyfleusterau gwell nag a gafwyd erioed o'r blaen.

Perchennog y cae yw Mr Ioan Beechey, Lletyllwyd, ac mae disgwyl y bydd y grŵp lleol sydd wedi bod yn llywio'r fenter yn medru dechrau ar y gwaith o baratoi'r maes ddechrau 1 Gorffennaf, yn barod ar gyfer tymor 2010-11. Y bwriad yw defnyddio'r hen enw ar y cae, sef Cae'r Odyn Galch.

Mae disgwyl i'r clybiau ieuencid ac oedolion ddefnyddio'r maes. Er yn croesawu'r datblygiadau hyn, mae clwb Tal-y-bont yn ddolchgar am y gefnogaeth a gafwyd gan Mr Roland Davies, Dolcletwr, am rentu un o'i gaeau dros sawl blwyddyn.

Mae'r grŵp llywio, dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, yn trefnu cyfarfod cyhoeddus er mwyn rhoi'r cyfle i bawb o'r ardal ddod yn rhan o'r datblygiad cyffrous hwn. Cynhelir y cyfarfod yn y Neuadd Goffa am 7.30 nos Fercher 23 Mehefin ac mae croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb yn y fenter gyffrous hon i ddod draw.

Cyfarfod Cyhoeddus

i sefydlu Cymdeithas Maes Chwarae Cae'r Odyn Galch
(maes newydd ar gyfer y gymuned)

**Neuadd Goffa, Tal-y-bont
Nos Fercher 23 Mehefin
am 7.30**

Croeso cynnes i bawb

Dyfodol y Clwb Ieuencid

Wrth feddwl ymlaen am fis Medi (!!!!!), gofynnwn yn garedig am wirfoddolwyr i helpu. Mae'r Ieuencid yn cwrdd ar bob nos Wener, rhwng 7 a 9 yr hwyr, yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Cysyllter â Medi James (832725) neu Mair Nutting (832027) os allwch gynnig **unrhyw** help. Am y tro, rydym yn ffarwelio â Catrin Mason sydd ar gyfnod mamolaeth. Rho dy draed fyny a mwynha'r tywydd braf.

Clwb Pêl-droed Ieuencid Talybont a'r Cylch

Diwrnod Hwyl

Dydd Sadwrn 26 Mehefin

2010

Pêl-droed

12.00pm – Ysgol Talybont (5 pob ochr)

Ras Hwyaidd

5.00pm – Afon Ceulan Cwrdd Ffald Penpompren

Barbeciw

6.30pm – Llew Gwyn/Llew Du

Castell Bownsio

Cyfrifoldeb y rhieni fydd goruchwyllo'r plant

Cwis

6.30pm – Patsyn Glas, Talybont

Raffl

Gwobrau gwych

Rhagor o wybodaeth:

Ceri 01970 832543 / Mark 07967 487944 /
Anthony 01970 832776



Y Lolfa ar y brig!

Brynhawn Sadwrn 6 Mehefin, yng Ngŵyl y Gelli, cyhoeddwyd Rhestr Fer cystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn. Cyhoeddir enwau'r enillwyr yn Gymraeg a Saesneg mewn seremoni fawreddog ym Mae Caerdydd ar 30 Mehefin, gyda'r enillydd yn y ddau gategori'n derbyn gwobr o £10,000 yr un. Llongyfarchiadau mawr i Wasg y Lolfa – hwy yw cyhoeddwy'r y tair cyfrol Gymraeg a ddaeth i'r brig, sef *Naw Mis* gan Caryl Lewis, *Banerog* gan Hywel Griffiths (sy'n byw yn Nhal-y-bont), a *Cymru: Y 100 lle i'w gweld cyn marw* gan John Davies a Marian Delyth. Pwy bynnag fydd yn ennill y wobr gyntaf, felly, bydd dathlu mawr yn y Lolfa – yn haeddiannol iawn, hefyd!

Clwb Clocio

Bydd clwb newydd clocio yn dechrau yn Nhalybont ym mis Medi bob nos Fercher yn ystod tymor yr ysgol am 7.30 yn y Neuadd Goffa.

Bydd croeso cynnes i ddisgyblion ysgol uwchradd i gychwyn a'r bwriad wedyn fydd ymledu'r clwb i ddisgyblion ysgol gynradd.

Bydd mwy o fanylion i ddilyn yn y noson ar y 4ydd o Fedi.

Cystadleuaeth i enwi'r clwb clocio newydd.

Anfonwch eich ceisiadau i

Alaw Lewis, Y Garth, Talybont neu Jen Evans, Neuadd Fawr, Talybont.

Bydd yr enw buddugol yn cael ei ddatgelu yn y Twmpath.

Twmpath Dawns

Neuadd Tal-y-bont, Nos Sadwrn, 4 Medi 2010, 7.30y.h.

Dewch i gefnogi.